



27th January 2025

Annwyl Sian,

Diolch am y Cwestiynau Ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych ar 4 Tachwedd am fy ymateb ar 11 Tachwedd, (WQ94815, WQ94816, WQ94826, WQ94827).

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 yn sefydlu safonau ar gyfer gwella ansawdd cartrefi cymdeithasol er mwyn darparu amgylchedd iach a chyfforddus i deuluoedd ffynnu ynddynt. [Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 | LLYW.CYMRU](#)

Darperir grantiau cyfalaf i bob landlord cymdeithasol i gefnogi gwaith uwchraddio cartrefi presennol i fodloni'r safon, a fydd yn gwneud cartrefi yn llai tueddol o gael llwydni a lleithder. Mae cyfanswm o £200 miliwn ar gael yn 2024-25.

Ochr yn ochr ag uwchraddiadau i gartrefi, mae ein darparwyr tai cymdeithasol yn cefnogi eu tenantiaid i reoli'r ffordd y maent yn defnyddio eu cartrefi i leihau'r tebygolrwydd y bydd llwydni a lleithder yn ymddangos.

Ar gyfer aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn llety rhent preifat, mae gan ein cynllun Cartrefi Clyd Nyth £30 miliwn ar gael i fuddsoddi'r flwyddyn ariannol hon ar effeithlonrwydd ynni a gwresogi carbon isel.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn helpu.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.